# Caergwrle

**Pellter:** 3 km / 1.8 milltir
**Anhawster:** canolig
**Amser cerdded:** 1.5 awr

Dim camfeydd ond rhai llethrau serth

Caffi yn y pentref ac wrth ymyl yr orsaf. Cae chwarae ar ran gyntaf y daith gerdded.

Mae'r llwybr hwn yn dilyn palmentydd o gwmpas y pentref yn bennaf. Mae dringfa serth at y castell yn werth yr ymdrech, ac mae'r hen bont geffylau yn darparu croesfan ddiddorol dros afon Alun.

Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau.Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau

1. O'r orsaf, ewch allan i'r A550 a throi i'r chwith. Dilynwch am tua 600m cyn belled â throad i'r dde o'r enw Crossways. Ewch yn syth ymlaen. Pan fydd y ffordd yn gwyro i'r dde yn y pen draw, mae cyfle i fynd i'r cae chwarae. Neu, ewch yn syth ymlaen drwy'r llwybr bychan a byddwch yn ymuno â'r briffordd.

2. Trowch i'r dde a dilyn i mewn i'r pentref. Pan fyddwch yn cwrdd â chyffordd wrth ymyl SPAR, byddwch yn gweld troad i'r dde i fyny at gastell Caergwrle. Dringfa serth ond byr, sy'n werth yr ymdrech i archwilio'r hen adfeilion. Adeiladwyd Castell Caergwrle rhwng 1278- 82 gan Dafydd ap Gruffudd. Dyma'r castell olaf i gael ei adeiladu gan dywysog Cymreig brodorol.

3. Gwnewch siâp dolen o gwmpas y top a dychwelyd yn ôl ar yr un llwybr. Cadwch SPAR ar yr ochr dde i chi a dilyn y ffordd drwy'r pentref. Ar ôl i chi basio'r maes parcio ar y chwith, cymerwch y lôn gyntaf ar y dde (arwydd llwybr cyswllt gogledd Cymru)

4. Ewch yn syth dros y ffordd nesaf a dilyn y llwybr i lawr a thros yr hen bont geffylau. Roedd yr holltau siâp V yn y waliau yn caniatáu i gerddwyr gadw draw oddi wrth y ceffylau. Dilynwch y llwybr hwn i fyny ac yna dros y rheilffordd cyn mynd i lawr drwy stad fechan o dai i gwrdd â'r ffordd.

5. Trowch i'r dde wrth y ffordd a mynd yn ôl ar y daith gerdded




Dylunio a Darlunio ©Arry Cain 2023